



NSPCC

Briff gan NSPCC Cymru/Wales

Cyflawni lles emosiynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Dull system gyfan

Gan Louise Bazalgette, Tom Rahilly a Grace Trevelyan
Mehefin 2015

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO

Cyflawni lles emosiynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: dull system gyfan

Mae gan blant sy'n derbyn gofal (LAC) yn y DU fwy o risg o fod ag iechyd meddwl gwael na phlant yn y boblogaeth yn gyffredinol.¹ Yn ôl un astudiaeth gynhwysfawr yng Nghymru o iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal, roedd gan 49% o blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol anhwylder iechyd meddwl.² Dengys ffigurau diweddar o Gyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn 2014 mai gan blant 10-15 oed oedd y ganran uchaf o broblemau iechyd meddwl yn y boblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.³ Ymddengys bod y ganran uchel o anhwylderau iechyd meddwl ymhlith plant sy'n derbyn gofal yn awgrymu nad yw eu hawliau o dan Erthygl 27 yr UNCRC (yr hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol plentyn) yn cael eu gwireddu'n ymarferol.

Mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol, tri yn Lloegr ac un yng Nghymru, cyflawnodd yr NSPCC raglen o waith maes i holi plant sy'n derbyn a gadael gofal, eu gofalywyr a gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn deall eu barn am sut y mae'r system ofal yn cefnogi lles emosiynol pobl ifanc ar hyn o bryd, a pha newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld. Penderfynodd yr NSPCC gomisiynu'r Ganolfan Rees ym Mhrifysgol Rhydychen i gyflawni adolygiad o'r dystiolaeth lenyddol o 'beth sy'n gweithio' o ran hybu iechyd meddwl da mewn plant sy'n derbyn gofal a bu'n gweithio gyda'r pedwar awdurdod lleol a'u partneriaid iechyd i ystyried sut i drosi'r negeseuon ymchwil yn arferion a sut i ddyfeisio syniadau newydd ar gyfer cefnogi lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal.

Cafodd y casgliadau o'r prosiect eu hysgrifennu mewn adroddiad sydd ar gael ar wefan yr NSPCC. Mae'r adroddiad hwn yn trafod achosion iechyd meddwl gwael ymhlith plant sy'n derbyn gofal ac yn ystyried sut y gall gwasanaethau mewn ardaloedd lleol weithio gyda'i gilydd i hybu lles emosiynol da i blant sy'n derbyn gofal. Mae'n gofyn:

Sut allwn ni gyflawni lles emosiynol da i bob plentyn mewn gofal?

Sut byddai system ofal sy'n blaenoriaethu lles emosiynol plant yn edrych?

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r materion a'r blaenoriaethau allweddol sy'n codi o'r prosiect ar gyfer Cymru.

Blaenoriaethau newid

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ar y prosiect hwn, a meddwl am les emosiynol a iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal, daeth yn glir **y gellir meddwl amdano fel rhywbeth sy'n gyfrifoldeb y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn unig**. Rhaid i ni feddwl yn wahanol; mae angen **system gyfan sy'n blaenoriaethu lles emosiynol plant mewn gofal, ar draws iechyd a gofal cymdeithasol**. Ar sail y gwaith maes a'r ymchwil ar gyfer y prosiect hwn, nododd yr NSPCC a'n partneriaid awdurdod lleol bump o flaenoriaethau newid a fyddai'n gwella'r cymorth a roddir i sicrhau lles emosiynol plant mewn gofal. Y rhain yw:

- **Gwreiddio pwyslais ar les emosiynol ar draws y system**
- **Gweithredu dull rhagweithiol ac ataliol**
- **Rhoi llais a dylanwad i blant a phobl ifanc**
- **Cefnogi a chynnal y perthnasoedd sydd gan blant**
- **Cefnogi anghenion emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal**

Argymhellion allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer

Mae'r adran hon yn crynhoi ein gweledigaeth ar gyfer system ofal sy'n blaenoriaethu lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys argymhellion allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer a

1 Tarren-Sweeney M., a Vetere A., 'Establishing the need for mental health services for children and young people in care, and those who are subsequently adopted.' Yn 'Mental Health Services for Vulnerable Children and Young People', Gol. Tarren-Sweeney, M., a Vetere, A. Llundain: Routledge, 2014.

2 Meltzer, H., Corbin, T., Gatward, R., a Ford, T. (2003) The mental health of young people looked after by local authorities in Wales. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain: HMSO.

3 <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150225-wales-children-need-census-2014-en.pdf>

ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r briff hwn yn casglu ynghyd ac yn crynhoi adrannau o'r adroddiad sy'n berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru.

Blaenoriaeth un: gwreiddio pwyslais ar les emosiynol ar draws y system

Dangosodd ein gwaith fod Cymru, yn ogystal â gwledydd eraill yn y DU, wedi gwneud peth cynnydd mewn adnabod bod lles emosiynol plant mewn gofal yn flaenoriaeth ar gyfer polisi cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid gwneud mwy i wreiddio'r pwyslais hwn ar les emosiynol plant ar lefel fwy lleol.

Dylai awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd sicrhau bod lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn cael ei adnabod yn glir fel blaenoriaeth strategol ar gyfer eu hardal. Dylai'r camau a gymerir gynnwys:

- **Datblygu strategaeth leol ar gyfer sut y bydd lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn cael ei asesu, monitro a'i gefnogi a sicrhau hefyd bod sbectrwm o wasanaethau seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu comisiynu** i ymateb i anghenion iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod **data cadarn ar iechyd meddwl plant sydd angen gofal a chymorth arnynt yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi i oleuo cynlluniau strategol**, drwy'r asesiadau o anghenion poblogaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai system ofal effeithiol fod yn gallu mesur ei llwyddiant o ran cyflawni lles emosiynol da i blant sy'n derbyn gofal. Dylai fod yn un o'r mesurau canlyniad allweddol wrth ddarparu gofal cymdeithasol i blant a dylai awdurdodau lleol dracio sut y mae lles emosiynol plant mewn gofal yn newid dros amser. Nid yw mesurau canlyniad iechyd a lles emosiynol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd eto gan y system ofal yng Nghymru. Felly, **dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gofyniad bod awdurdodau lleol yn casglu mesurau canlyniad cadarn er mwyn monitro lles emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal drwy'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.** Dylai newidiadau mewn lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal fod yn un o'r **mesurau**

canlyniad allweddol yn yr adroddiadau blynyddol fydd yn rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Blaenoriaeth dau: gweithredu dull rhagweithiol ac ataliol

Asesu'n fuan yw'r cam cyntaf hollbwysig tuag at weithredu dull rhagweithiol ac ataliol o gefnogi lles plant sy'n derbyn gofal. Yn dilyn ymlaen o Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymgorffori'r angen bod iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal yn cael ei asesu, a daw hyn i rym yn 2016. I gefnogi'r broses hon, dylai Llywodraeth Cymru **gyhoeddi canllawiau ar beth y dylai'r broses asesu hon ei gynnwys a sut y dylai oleuo cynlluniau gofal.** Byddwn yn galw am hyn yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn cael eu llelya. Pan fydd gwell dealltwriaeth o anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal, bydd yn arwain at broses fwy wybyddus o baru lleoliadau.

Hoffem hefyd weld y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **yn nodi'n glir pa asesiadau pellach neu ymyriadau a allai fod eu hangen ar y plentyn neu eu gofalwr.** Dylai Swyddogion Adolygu annibynnol gadw golwg ar gamau'r cynllun gofal a chymorth i sicrhau y gweithredir hwynt, ac adolygu'r cynnydd yn rheolaidd.

Roedd pob un o'r awdurdodau lleol a gymrodd ran yn y prosiect hwn, gan gynnwys ein partner yng Nghymru, wedi adnabod bod mwy o fynediad at gofnodion profiadau bywyd yn flaenoriaeth bwysig i wella'r cymorth a roddir i blant sy'n derbyn gofal. Dylid cael **arweinyddiaeth glir mewn awdurdodau lleol bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu helpu i gofnodi profiadau bywyd** o'r pwynt derbyn gofal cynharaf. **Dylai cyfleoedd i gofnodi profiadau bywyd fod ar gael drwy gydol taith ofal y plentyn** ac wrth iddynt bontio i fod yn annibynnol.

Blaenoriaeth tri: rhoi llais a dylanwad i blant a phobl ifanc

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal eu syniad eu hunain o beth sy'n cyfrannu at eu lles emosiynol a sut fath o gymorth fydd yn eu helpu

orau i gyflawni lles emosiynol. Dylai gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr gefnogi plant i ddisgrifio beth sy'n bwysig ar gyfer eu lles a sut y gall gofalwyr a gweithwyr proffesiynol helpu. Gall gwneud hyn rymuso'r plant a'r bobl ifanc i deimlo bod ganddynt fwy o "reolaeth" ar eu lles a'u gwydnwch.

Yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru **eisoes wedi ymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 y bydd yn disgwyl i blant sy'n derbyn gofal gael eu cynnwys mewn diffinio eu canlyniadau lles. Rydym yn croesawu hyn yn frwd ac yn teimlo y dylai gweinyddiaethau eraill yn y DU ddilyn yr esiampl hon** o gynnwys plant a phobl ifanc mewn diffinio'r canlyniadau y byddent yn hoffi eu cyflawni tra byddant mewn gofal a monitro'r cynnydd yn erbyn y canlyniadau a ddewisodd y plentyn.

Dangosodd ein gwaith ar y prosiect hwn fod y gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn araf i ymateb i negeseuon gan blant a phobl ifanc ynghylch beth y maen nhw ei eisiau gan wasanaeth. I sicrhau bod gwasanaethau'n **cael eu dylunio gydag anghenion a dymuniadau pobl ifanc mewn golwg**, dylai comisiynwyr lleol **gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr ym mhob cam o ddylunio'r** gwasanaethau hyn, fel bod plant yn cael cynnig sbectrwm o gymorth sy'n ateb eu hanghenion. Dylai'r gwasanaethau hyn gael eu **cyd-gomisiynu gan wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg plant a'u hintegreiddio ar draws y gwahanol haenau fel bod gan bobl ifanc fynediad hawdd at wasanaethau sy'n hybu eu gwydnwch⁴ a hefyd at wasanaethau therapiwtig mwy dwys** lle bo'u hangen arnynt. Dylai'r gwasanaethau ddefnyddio mesurau canlyniad cyson, wedi eu sgorio gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain, i sicrhau y medrant ddangos sut y maen nhw'n helpu plant.

Yn olaf, **dylid edrych ar blant sy'n derbyn ac sy'n gadael gofal fel arbenigwyr ar y system ofal**. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt **drefniadau effeithiol i ymgynghori gyda nhw** ar wella gwasanaethau.

Blaenoriaeth pedwar: cefnogi a chynnal y perthnasoedd sydd gan blant

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn glir iawn mai eu perthnasoedd gyda gofalwyr, aelodau o'u teuluoedd genedigol, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn bennaf gyfrifol am a gawsant brofiad gofal cadarnhaol neu negyddol. Roedd pwysigrwydd y perthnasoedd hyn hefyd yn un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad o'r llenyddiaeth a wnaed gan Ganolfan Rees ac a gomisiynwyd gan yr NSPCC ar gyfer y prosiect hwn.

Mae'r awdurdodau lleol oedd yn rhan o'r prosiect wedi adnabod nifer o gynigion ar gyfer sut i gefnogi plant sy'n derbyn gofal i gael lleoliadau mwy sicr a sefydlog â'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys **gweithio i wella statws gofalwyr maeth** yn y gweithlu plant. Dylid rhoi **hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth i'w helpu i ddeall a cheisio ateb yr anghenion emosiynol sydd gan blant sy'n derbyn gofal**. Dylai awdurdodau lleol **fonitro lles emosiynol y gofalwyr hefyd a hyrwyddo ymyrryd yn fuan i gefnogi lleoliadau sefydlog**.

Pwysleisiodd ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc fod y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn a gadael gofal **yn parhau i weld eu teuluoedd fel pobl sy'n ganolog i'w bywydau wrth ddechrau derbyn gofal**. Er bod y **perthnasoedd teuluol hyn efallai'n helbulus, maen nhw'n aml yn rhai gydol oes ac mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru'n gadael gofal i ddychwelyd at eu teuluoedd genedigol**. Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd **gydnabod pa mor bwysig yw cefnogi perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant mewn gofal a'u teuluoedd genedigol, lle mae hyn yn bosibl ac yn ddiogel** i'r plentyn neu berson ifanc. Mae angen mwy o waith ymchwil a datblygu gwasanaeth i **adnabod ffyrdd effeithiol o gefnogi'r berthynas rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd genedigol er mwyn hybu lles emosiynol plant**.

Blaenoriaeth pump: cefnogi anghenion emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae'r awdurdodau lleol oedd yn bartneriaid ar y prosiect hwn wedi adnabod **bod cefnogi anghenion emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth bwysig wrth ddylunio systemau**. Gall y

4 Gweler y fframweithiau gwydnwch a ddatblygwyd gan yr Athro Angie Hart a'i chydweithwyr <http://www.boingboing.org.uk/index.php/resilience-in-practice/what-is-resilient-therapy>

cyfnod pontio pan fydd pobl ifanc sy'n gadael gofal ar fin dod yn annibynnol, a'r cyfnod yn syth ar ôl iddynt adael gofal, fod yn her fawr i'w lles emosiynol.

Ar sail y trafodaethau a gafwyd gyda phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, mae'r gwaith o baratoi i adael gofal yn tueddu i **ganolbwyntio'n llwyr bron ar bethau ymarferol** yn hytrach nag ar baratoi'n emosiynol i adael gofal. Gall y materion ymarferol hyn effeithio'n sylweddol ar les emosiynol pobl ifanc (e.e. y straen o gael rhywle ansefydlog i fyw). Fodd bynnag, mae yna hefyd ddimensiynau cwbl gymdeithasol ac emosiynol sydd angen rhoi sylw iddynt. Yn greiddiol i hyn yw'r cwestiwn 'sut fath o rwydwaith cymorth fydd gen i ar ôl i mi adael gofal?'

Rhaid i awdurdodau lleol **sicrhau bod lles emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal yn thema allweddol wrth gynllunio llwybrau bywyd.**

Dylai'r gwasanaethau gadael gofal weld paratoi'n emosiynol i adael gofal fel un o'u prif feysydd cyfrifoldeb. Dylent sicrhau bod penderfyniadau eraill, fel lle bydd y person ifanc yn byw, yn cael eu gwneud gydag anghenion emosiynol y person ifanc mewn golwg. **Dylai'r gwaith paratoi ar gyfer pobl ifanc yn gadael gofal gynnwys eu helpu i greu a chynnal perthnasoedd gyda phobl fydd yn gallu parhau i'w cefnogi ar ôl iddynt adael gofal.** Dylai'r gwaith hwn ddechrau mor fuan â phosibl fel bod gan y bobl ifanc, ar ôl iddynt adael gofal, gyfres o berthnasoedd cryf y medrant ddibynnu arnynt am gymorth emosiynol.

Unwaith y bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn troi 18 (neu 16 weithiau), **ni fyddant wedyn yn gymwys i dderbyn CAMHS** a gwasanaethau cymorth eraill. Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn dal i weld y bobl ifanc hyn fel cyn blant mewn gofal. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau iechyd yn eu gweld fel oedolion heb ddim mwy o hawl i dderbyn gwasanaeth iechyd meddwl na rhywun arall, gan greu bylchau sylweddol yn y cymorth.

Cytunai'r gweithwyr proffesiynol oedd yn rhan o'r prosiect fod y **cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i rai sy'n gadael gofal yn annigonol** a bod angen gweld newid sylfaenol yn y cymorth sydd ar gael iddynt, i'w helpu i bontio'n llwyddiannus i fod yn annibynnol. Mae rhai ardaloedd lleol eisoes yn ymateb i'r her hon drwy benodi gweithiwr CAMHS rhan amser i'w tîm gadael gofal, i roi mwy o fynediad

i rai sy'n gadael gofal at gymorth therapiwtig a hefyd i roi mynediad i weithwyr cymdeithasol at gymorth clinigol fel eu bod yn deall anghenion emosiynol y bobl ifanc yn well. **Dylid ymestyn y mynediad blaenoriaeth hwn at wasanaethau iechyd meddwl oedolion i bawb sy'n gadael gofal, gyda phob awdurdod lleol ac asiantaeth iechyd yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cymorth therapiwtig ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal tan eu bod yn 25 oed, gyda threfniadau pontio llyfn o CAMHS i'r bobl ifanc sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaethau.**

Dangosodd ein cyfweiliadau â phobl ifanc yn ystod y prosiect **fod rhai wedi brwydro gyda theimlo dan bwysau i adael eu lleoliad cyn yr oeddent yn barod**, ac wedi mynd i deimlo'n isel neu'n bryderus o dan y straen o fyw ar eu pen eu hunain. **Rydym yn croesawu'r canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru i geisio helpu awdurdodau lleol i weithredu'r cynllun Pan Fydda i'n Barod** a gobeithiwn y bydd hyn yn helpu pobl ifanc i bontio'n haws i fyw'n annibynnol, gan felly sicrhau mwy o sefydlogrwydd a chanlyniadau gwell.

Casgliad

Mae gwella a rhoi blaenoriaeth i les emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn rhan ganolog o drafodaeth bwrpasol am weledigaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd y blaenoriaethau newid a amlygwyd gan ein prosiect yn helpu i greu llwyfan ar gyfer beth y gall y Cynulliad Cenedlaethol hwn, a'r nesaf, ei gyflawni er mwyn darparu canlyniadau gwell i blant mewn gofal.

Mae hefyd yn werth nodi bod mantais ariannol yn gysylltiedig â sicrhau lleoliadau sefydlog i blant sy'n derbyn gofal. Cyflawnodd Brifysgol Loughborough waith modelu costau ar gyfer y prosiect hwn, yn defnyddio'r cyd-destun yn Lloegr a'u Cyfrifydd Costau ar gyfer Gwasanaethau Plant⁵ gan gasglu bod profiad gofal plentyn ansefydlog a digymorth yn costio £22,415 yn fwy bob blwyddyn na phrofiad gofal plentyn sefydlog gyda chymorth digonol. Gellid ailadrodd gwaith tebyg yng Nghymru, ar yr amod bod cyllid ar gael, ond mae'r enghraifft hon o Loegr yn rhoi syniad defnyddiol o'r arbedion costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau sefydlog.

5 <http://www.lboro.ac.uk/research/ccfr/research/exploring/project---the-cost-calculator-for-childrens-services.html>

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i
nspcc.org.uk